# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Jim Evans (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jeffrey M Evans, Ann Griffith, John Griffith, K P Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, G O Jones, H E Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Richard Owain Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, J A Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Raymond Jones, D R Hughes, T Ll Hughes, A M Jones, Carwyn Jones, Dylan Rees a P S Rogers |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu’r canlynol:-**

**“Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**3. PENODI PRIF WEITHREDWR AC AIL-STRWYTHURO'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH**

Rhoddwyd sylw i argymhellion y Pwyllgor Penodi a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2015.

Cafwyd adroddiad manwl gan y Prif Weithredwr ar argymhellion y Pwyllgor Penodi i’r Cyngor Sir. Amlinellodd rôl Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol yn argymell lefel y cyflog ar gyfer Prif Weithredwyr yng Nghymru.

Yn dilyn trafodaethau maith **PENDERFYNWYD:-**

**• Cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Penodi a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2015 gan gynnwys yr isod:**

- **Argymell i'r Cyngor Sir mai £115k i £120k fydd cyflog y Prif Weithredwr newydd (yn amodol ar sylwadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol)**
- **Os ystyrir swydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn y dyfodol, dylai'r cyflog gael ei bennu ar lefel sy'n cyfateb i 90% o gyflog y Prif Weithredwr.**
- **Bydd disgrifiad swydd ar gyfer y Prif Weithredwr newydd yn cael ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor Penodi a dirprwyo'r awdurdod i Gadeirydd y Pwyllgor Penodi i awdurdodi'r disgrifiad swydd ar gyfer ei hysbysebu oni cheir unrhyw newidiadau gan yr Aelodau;**
- **Y bydd yr hysbyseb ar gyfer swydd y Prif Weithredwr yn cael ei rhoddi ar wefan y Cyngor ac y bydd datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol hefyd i hysbysebu'r swydd;**
- **Cytunwyd y bydd proses asesu'n rhan o'r broses recriwtio ac y bydd AD yn canfod cefnogaeth ymgynghorol ar gyfer asesu'r sawl sydd wedi ymgeisio am swydd y Prif Weithredwr newydd a dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd benodi ymgynghorydd allanol yn dilyn ymgynghori gyda Swyddogion.**

**• Bod y swydd y Prif Weithredwr wedi hynny yn cael ei hysbysebu cyn gynted ag y bo modd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**